*This document is available in English* **Eitem Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **21 Medi 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **Dawn Docx, Prif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | |
| Pwnc | **Llythyr Llywodraethiant gan Weinidog y Cabinet** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Dyma adroddiad eglurhaol i gyd-fynd â’r llythyr a gafodd Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC) gan y Gweinidog Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio. Mae'r llythyr yn cael ei gyflwyno er gwybodaeth.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yn dilyn etholiadau Llywodraeth Cymru ym mis Mai 2026 a'r newid gweinyddiaeth yn eu sgil, cysylltodd Cadeirydd ATAGC â'r Gweinidog newydd sy'n gyfrifol am Dân ac Achub i geisio cadarnhad ynghylch y newidiadau arfaethedig i'r trefniadau llywodraethiant ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.

3 Ar 3 Awst 2026, cafodd y Cadeirydd y llythyr sydd wedi’i atodi.

4 Yn y llythyr hwn, mae Gweinidog y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, Sian Gwenllian AS, yn cadarnhau y bydd y trefniadau newydd yn dod i rym yn dilyn etholiadau llywodraeth leol yn 2027.

**ARGYMHELLIAD**

5 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

i) **Nodi cynnwys y llythyr a'r cadarnhad o’r trefniadau newydd i'w gweithredu ar ôl etholiadau llywodraeth leol yn 2027**

ii) **Comisiynu Clerc yr Awdurdod a'r Prif Swyddog Tân i ddatblygu'r strwythurau llywodraethiant, y trefniadau cyfansoddiadol a'r model gweithredu newydd i'w cyflwyno i'r Awdurdod Tân presennol cyn ei ddiddymiad yn 2027.**

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae trefniadau llywodraethiant cryf yn sicrhau y gall y Gwasanaethau Tân ac Achub ddarparu gwasanaethau cynaliadwy yn wyneb risgiau hirdymor i'r cyhoedd. |
| Cyllideb | Ddim yn gwybod eto |
| Cyfreithiol | Mae'r trefniadau wedi'u nodi yng Ngorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol ac Amrywio Cynlluniau Cyfuno) (Cymru) 2026 |
| Staffio | Ddim yn gwybod eto |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Rhaid diogelu'r amddiffyniadau cyfreithiol presennol ar gyfer Cydraddoldeb, Hawliau Dynol a'r Gymraeg yn y cyfansoddiad a'r trefniadau llywodraethiant yn y trefniadau newydd. |
| Risgiau | Nid yw’r trefniadau wedi’u llunio na'u profi eto er mwyn penderfynu a fydd llywodraethiant a chraffu digonol ar y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru. |